# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HAF 2024**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Mae 5 darn darllen ar y thema 'Llwybrau' yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân. Darllenwch **bob un** o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn darllen 1**
**Arwyddion Llwybrau yng Nghymru**

**A1.** Pa lwybr sy'n defnyddio'r gragen wen fel arwydd? [1]

- **Llwybr Arfordir Cymru**

**A2.** Sawl math o lwybr sy'n addas ar gyfer marchogaeth ceffylau? [1]

- **4/pedwar (derbyn enwi'r pedwar llwybr hefyd)**

**Darn darllen 2**
**Taith Gerdded o Nebo i Fryn-llidiart**

**A3.** Pa **ddau** ansoddair sy'n cael eu defnyddio er mwyn disgrifio cyflwr y llwybrau ar y daith? [2]

- **corsiog / (yn) gorsiog**
- **anwastad**



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn darllen 3**
**Llwybrau Beicio Llyn Brenig**

**A4.** Darllenwch y gosodiadau canlynol a nodwch a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir. Rhowch ✓ neu X yn y blychau perthnasol. Mae un wedi'i wneud i chi'n barod. [2]

| **Gosodiad** | **✓ neu X** |
|---|---|
| Cost llogi e-feic yw pum punt ar hugain. | ✓ |
| Nid yw cerdyn banc yn cael ei dderbyn fel tystiolaeth pan fyddwch yn llogi beic. | **X** |
| Mae Llyn Brenig yn cael ei amgylchynu gan ddwy fil a hanner o erwau. | ✓ |

**A5.** Beth yw prif fwriad y wefan hon? [1]

| | |
|---|---|
| Cyflwyno gwybodaeth | ✓ |
| Disgrifio | |
| Mynegi barn | |
| Esbonio | |

Rhoi ✓ i fwy nag un – **0 marc**

**A6.** Rhowch enghraifft o un dechneg neu nodwedd effeithiol **yn y darn** ac esboniwch pam ei bod yn effeithiol. [2]

- 1 marc am enwi'r nodwedd a dyfynnu'n gywir
- 1 marc ychwanegol am esbonio effaith y dechneg yn synhwyrol yng nghyd-destun y darn

**(Rhaid enwi a dyfynnu'n gywir er mwyn ennill y 2 farc yn llawn)**

**Darn darllen 4**
**Cadw - Llwybr Arfordir Cymru**

**A7.** Beth sy'n gwneud Cymru a'i llwybr arfordir yn unigryw? [1]

- **Dyma'r unig lwybr sy'n amgylchynu'r arfordir cyfan.**



© WJEC CBAC Cyf.

**A8.** Sut mae'r awdur yn denu pobl i fentro ar un o deithiau Llwybr Arfordir Cymru yn y darn hwn?
Dylech gyfeirio at nodweddion arddull neu dechnegau penodol yn eich ateb. [5]

| Techneg / nodwedd / Sut | Enghraifft |
|---|---|
| Ffeithiau | Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â llwybr troed sy'n amgylchynu ei harfordir cyfan.<br><br>Llwybr 870 milltir.<br><br>Mae cerdded yn ymarfer aerobig hamddenol sy'n gwella iechyd cardiofasgwlaidd, yn cryfhau'r cyhyrau, ac yn gwella hyblygrwydd. |
| Ansodderiau | Amrywiaeth eang… llwybrau cerdded gorau… o gestyll pwysig…<br>Effaith gadarnhaol… hanes<br>Rhyfeddol… ateb perffaith<br>Caerau hynafol croeso<br>Cynnes |
| Rhestru | 6 o gestyll pwysig ein gwlad, yn ogystal â detholiad eang o fryngaerau, cylchoedd cerrig a siambrau claddu. |
| Pwysleisio manteision iechyd a lles | Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r manteision iechyd a lles sy'n gysylltiedig â bod yn yr awyr agored, |
| Berfenwau | **codi** ysbryd<br><br>**gwella** hwyliau |
| Idiom | wrth eich bodd |
| Ystadegau | 88% o bobl yn nodi… |
| Enwi | Castell Talacharn, Castell Casgwent (mae enghreifftiau eraill hefyd) |
| Berfau gorchmynnol | Cewch |

Neu unrhyw nodweddion perthnasol eraill.
Dylech gyfeirio at nodweddion arddull neu dechnegau penodol yn eich ateb.

**0 marc** Heb ymgeisio / ateb amherthnasol
**1 marc** Gallu cyfeirio'n syml at ambell beth sy'n dangos bwriad yr awdur gan ddechrau dyfynnu
**2 farc** Ymdrech eithaf da i drafod ambell dechneg / nodwedd yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft / dyfyniad a dechrau dadansoddi
**3 marc** Gallu trafod sawl techneg / nodwedd o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda
**4 marc** Gallu trafod amrywiaeth o dechnegau o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda iawn
**5 marc** Ateb manwl sy'n trafod y darn darllen yn ddeallus gan ddyfynnu a dadansoddi'n hyderus


© WJEC CBAC Cyf.

**Darn darllen 5**
**Dathlu degawd Llwybr Arfordir Cymru**

**A9.** Mae tri o’r gosodiadau isod yn **anghywir.** Mae un ateb wedi’i roi i chi’n barod.
Rhowch **X** yn y blychau gyferbyn â’r ddau sylw **anghywir** arall. **[2]**

| | |
|---|---|
| Mae rhannau o’r llwybr mewn cyflwr gwael. | |
| Mae ambell un yn gwrthwynebu’r llwybr. | |
| Nia Rhys Jones yw unig gadeirydd Cymdeithas Twristiaeth Môn. | **X** |
| Roedd y gwaith o sefydlu Llwybr Arfordir Cymru yn hawdd. | **X** |
| Mae hanner y bobl sy’n ymweld â’r llwybr yn nodi mai'r golygfeydd godidog sy’n eu denu yn ogystal â manteision cerdded y llwybr i’r corff a’r meddwl. | **X** |

**X** mewn 3 blwch – tynnu **1 marc** o’r cyfanswm
**X** mewn 4 blwch – **0 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn darllen 4 a 5**
**Cadw - Llwybr Arfordir Cymru**
**Dathlu degawd Llwybr Arfordir Cymru**

**A10**. Cymharwch yr hyn yr ydych **yn ei ddysgu** am Lwybr Arfordir Cymru yn y ddau ddarn. Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen i gefnogi'ch ateb. [8]

| Darn darllen 4 | Darn darllen 5 |
|---|---|
| Hyd y llwybr 870 o filltiroedd, amgylchynu arfordir Cymru gyfan | Catrin Davies wedi gweld pob un traeth yng Nghymru ar ôl cerdded 870 o filltiroedd ar hyd LlAC |
| Teithiau'n addas ar gyfer pobl o bob oed | Unigolion, cyfeillion a theuluoedd wedi mentro ar y llwybrau yn ystod y deng mlynedd diwethaf |
| Digwyddiadau'n cael eu trefnu er mwyn dathlu degawd ers sefydlu Llwybr Arfordir Cymru | Trafod effaith sefydlu Llwybr Arfordir Cymru ddeng mlynedd yn ôl |
| Teithiau wedi eu creu sy'n dathlu'r amrywiaeth o safleoedd trefdadaeth ar y lllwybrau | Y llwybr yn gyfraniad sylweddol at ddiwylliant a threftadaeth ein gwlad |
| Y darn yn pwysleisio manteision cerdded a'r awyr iach ar gyfer y corff a'r meddwl | Pobl yn cerdded y llwybrau oherwydd manteision iechyd y llwybr i'r corff a'r meddwl |
| Sawl rhan o'r llwybr yn her | Catrin Davies yn nodi nad oedd cerdded y llwybr yn hawdd. Sawl rhan yn serth |
| Er gwaetha'r her mae pobl wrth eu bodd yn gweld y golygfeydd godidog | Catrin Davies wedi cael teimlad o falchder wrth gwblhau'r daith er gwaetha'r her |
| Y darn yn annog pobl i gadw eu ci ar dennyn pan fyddant yn troedio ar dir preifat | Ffermwr yn Aberteifi yn anhapus oherwydd nad yw pobl yn cadw eu cŵn ar dennyn |
| Y llwybrau yn dechrau erydu erbyn hyn | £1 miliwn yn cael ei wario'n flynyddol er mwyn cynnal a chadw'r llwybrau |


© WJEC CBAC Cyf.

**Awgrymiadau o ddehongli posib**

- **Y llwybr yn caniatau i chi ddod i adnabod Cymru gyfan e.e posib ymweld â gwahanol ardaloedd o Gymru**
- **Gellid cyfeirio at sut mae sicrhau dyfodol y llwybr e.e y llwybr yn erydu mewn rhannau, a yw gwario £1m yn cynnal a chadw yn gynaliadwy**
- **Cyfoethogi dealltwriaeth pobl o hanes Cymru, pobl yn gwerthfawrogi Cymru a'i hanes oherwydd yr hyn maen nhw'n ei weld wrth gerdded y llwybrau**

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Heb ymgeisio / ateb amherthnasol |
| **1 marc** | Ateb syml sy'n dangos y gallu i dynnu ambell ffaith (1-2 ffaith) o'r darnau darllen. |
| **2 farc** | Dechrau cymharu'n fwriadol y ddau ddarn ond heb ymgais i ddehongli. |
| **3 marc** | Cymharu'n fwriadol y ddau ddarn gydag ymgais arwynebol i ddechrau dehongli'r darnau hynny. |
| **4 marc** | Gwybodaeth gymharol gyson am y ddau ddarn a dehongli'n eithaf da. |
| **5 marc** | Ateb manwl sy'n cymharu'n hyderus ac yn dehongli'n dda. |
| **6 marc** | Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl, ac weithiau'n heriol, am y ddau ddarn gan gymharu'n effeithiol; dehongli yn dda iawn. |
| **7-8 marc** | Dethol gwybodaeth berthnasol heriol a thynnu casgliadau aeddfed wrth ddehongli'r ddau ddarn gan ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen. |



© WJEC CBAC Cyf.

**A11.** **(Golygu) 5 marc**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd y ..........................ohonyn nhw wedi dewis astudio'r Gymraeg ym mlwyddyn 12.

| | |
|---|---|
| pawb | |
| mwyafrif | ✓ |
| mwy | |
| llawer | |

(ii) Mae'r frawddeg isod wedi ei hysgrifennu yn yr amser gorffennol. Ysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio'r amser presennol. [2]

Roedd y gwaith yn heriol a gofynnais i'r athro am gymorth.

**Mae'r** gwaith yn heriol a **gofynnaf ac rwy'n gofyn** i'r athro am gymorth.

(iii) Dewiswch ddau air o'r rhestr a'u gosod yn y bylchau priodol. Gallwch dreiglo'r geiriau os oes angen. [2]

**tebygrwydd** **tebygolrwydd** **tebygol**

I. Mae'r ddwy ohonyn nhw'n chwiorydd ond nid oes **tebygrwydd** rhyngddyn nhw.

II. Mae hi'n addo tywydd garw yfory ac mae hi'n **debygol** y bydd y gêm yn cael eigohirio.



© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B (Ysgrifennu): 40marc

**B1. Prawf Ddarllen (5 marc)**

(i) Mae rhai enwau'n treiglo ar ôl 'y'. Yn yr ail golofn treiglwch y geiriau ar ôl 'y' yn ôl yr angen. [2]

| | |
|---|---|
| problem | **y broblem** |
| cyfrifiadur | **y cyfrifiadur** |
| gwefan | **y wefan** |
| llwybr | **y llwybr** |
| dogfen | **y ddogfen** |

4 yn gywir **2 farc**
2/3 yn gywir **1 marc**
1 yn gywir **0 marc**

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

| | |
|---|---|
| rhywun | ✓ |
| rhywyn | |

(iii) Mae **dau** wall yn y frawddeg isod**.** Ysgrifennwch y frawddeg yn gywir gan gywiro'r **ddau** wall. [2]

*Ysgrifennaf y **llythyr** hwn **atoch chi** gan obeithio y byddwch yn ystyried fy nghais.*



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.